Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# CONWY YN CEFNOGI BUSNES LLEOL - GRANT CRONFA ALLWEDDOL

## Meini prawf a Chanllaw

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# ADRAN A – FFACTORAU ALLWEDDOL

## Cyflwyniad:

Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn biler canolog o raglen Ffyniant Bro Llywodraeth y Du ac yn darparu £2.6 biliwn o arian ar gyfer buddsoddiad lleol erbyn Mawrth 2025. Mae'r Gronfa'n anelu at wella balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ar draws y DU drwy fuddsoddi mewn cymunedau a llefydd, cefnogi busnesau lleol, a phobl a sgiliau. Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus.cy

Byddai'r gronfa yn cefnogi ein busnesau (masnachol neu gymdeithasol) lleol i adnewyddu a datblygu ar gyfer y dyfodol.
Bydd y gronfa allweddol yn galluogi darpariaeth grantiau mwy i gefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd drwy gyflawni ystod o brosiectau yn canolbwyntio ar ymyriadau a ddiffinnir gan y DU.

- Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol, a chefnogi busnesau ar bob cam o'u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, yn cynnwys drwy rwydweithiau lleol.
- Cefnogaeth i dyfu'r economi gymdeithasol leol, yn cynnwys busnesau cymunedol, cydweithredol a mentrau cymdeithasol.
- Cefnogi datgarboneiddio a gwella'r amgylchedd naturiol wrth dyfu'r economi leol.
- Cyllid i gefnogi astudiaethau dichonoldeb perthnasol.

Mae'r cynllun wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl) gydag un ai trosiant o lai na €50 miliwn neu fantolen lai na €43 miliwn.

Mae'r cynllun yn cynnig cyllid o HYD AT 70% ar wariant cyfalaf a/neu refeniw cymwys ar gyfer prosiectau, gyda dyfarniadau o £3,000 hyd at £100,000 yn cael eu cynnig.

*Dylid nodi hefyd mai isafswm cost eitem unigol yw £100.*

Mae'r cynllun grant uwch hwn yn ddewisol a bydd yn cael ei weithredu ar sail gyntaf i'r felin yn dibynnu ar argaeledd arian a'r gallu i gwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen fanwl.

Bydd yr holl gynigion o gyllid yn amodol ar gymeradwyaeth gan Banel Adolygu Grantiau o'r ceisiadau.

Bydd dyddiad cau ceisiadau am grant ym mis Tachwedd 2024 neu ar amser lle

fydd y gronfa wedi'i ymrwymo'n gyfan gwbl, os yw'n gynt.

Yn dilyn cadarnhad o ddyfarniad bydd rhaid derbyn holl gynigion ac wedi'u tynnu o fewn 6 mis neu dim hwyrach na mis Rhagfyr 2024, pa un bynnag sydd cynharaf.

Gyda chytundeb ysgrifenedig gan CBSC, efallai gellir ymestyn dyddiad cau 6 mis, fodd bynnag ni fydd modd cael estyniad i ddyddiad cau mis Rhagfyr 24.

Fel cronfa amser cyfyngedig, gyfan gwbl neu'n rhannol) na chawsant eu tynnu yn unol â'r uchod yn dod i ben yn awtomatig.

## Ffactorau Cymhwyster

Mae'r cynllun wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl) gyda *naill ai* trosiant o lai na €50 miliwn *neu* fantolen lai €43 miliwn.

**Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth buddsoddi, mae'n rhaid i fusnesau gael eu lleoli yn Sir Conwy, wedi bod yn masnachu dros 6 mis ac wedi cofrestru gyda CaThEF**

Er mwyn cael ei ystyried, fe ddylai eich prosiect gyd-fynd ag un neu fwy o'r ymyriadau diffiniedig a chyflawni un neu fwy o'r allbynnau a chanlyniadau canlynol.

- Creu swyddi
- Diogelu swyddi
- Cyflwyno prosesau neu dechnolegau newydd i'r cwmni
- Cynhyrchiant gwell
- Cynnydd o ran buddsoddiad
- Prosiectau yn deillio o astudiaethau dichonoldeb wedi'u hariannu
- Pobl yn mynychu hyfforddiant
- Isadeiledd ynni carbon isel neu sero wedi'i ddarparu
- Cynyddu cystadleurwydd
- Cynorthwyo twf busnes
- Gwneud enillion effeithlonrwydd
- Cynyddu cynaliadwyedd
- Cyflwyno cynnyrch, gwasanaethau neu farchnadoedd newydd i'r cwmni
- Canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd

## Sectorau nad ydynt yn Gymwys

- Glo/Dur
- Adeiladu llongau

- Cynhyrchu ffibrau synthetig
- Banciau
- Cwmni Yswiriant
- Tai
- Addysg statudol
- Gwasanaethau Iechyd Statudol
- Pysgodfeydd/ dyframaeth/ amaethyddiaeth ac Atodiad 1 - cynhyrchu bwyd/ amnewidion llaeth/ gweithgareddau cysylltiedig ag allforio
- Gamblo, Tybaco, Cynhyrchu Arfau a Bwledi neu unrhyw sectorau sy'n arwain at effaith sylweddol ar yr amgylchedd neu sy'n foesegol neu'n foesol ddadleuol.

**Prosiectau cymwys**

Prosiectau cyfalaf a refeniw gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i)

- Cyfarpar i greu elw, gan gynnwys cyfarpar TG ac offer
- Deunyddiau marchnata sydd wedi'u cynllunio i weithredu cynllun marchnad wedi'i dargedu y dylid ei gynnwys yn y cais (nid hysbysebion)
- Hyfforddiant arbenigol perchennog neu staff busnes (**Ni fydd** hyfforddiant safonol h.y. Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf, Gwersi Gyrru ac ati) yn cael ei ystyried). Dim ond cyrsiau byrdymor y gellir eu hystyried h.y. Cyrsiau a gwblhawyd o fewn llai na 6 mis
- Ffioedd proffesiynol arbenigol i gael canlyniad gweladwy (e.e. ISO, IIP)
- Costau gosod / Llafur ar gyfer offer / gwaith datblygu
- Prosiectau lleihau carbon h.y. paneli solar / goleuadau ynni isel
- Uwchraddio digidol h.y. gwella / cychwyn dulliau digidol

**Prosiectau/Eitemau nad ydynt yn Gymwys**

- Gweithgareddau sydd eisoes wedi cychwyn (ni ellir prynu nac archebu eitemau nes bod cymeradwyaeth grant wedi'i rhoi)
- Prosiectau i fodloni gofynion statudol
- Adnewyddu h.y. disodli offer hen am rai newydd, Costau Cynnal a Chadw a / neu Gostau Rhedeg
- Prosiectau sy’n niweidiol i’r amgylchedd
- Prosiectau heb gydsyniadau statudol perthnasol (os yw'n berthnasol)
- Cerbydau ar y ffordd
- Eitemau nad ydynt yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y prosiect
- Prynu Tir a/neu Eiddo
- Costau staff
- TAW adferadwy
- Prynu stoc
- Caffael asedau o dan Bryniant Llogi, Cytundebau Credyd Estynedig neu Brydles

## Ffactorau Hanfodol i'w Nodi

### Dyfyniadau

Amcangyfrifon/dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer eitemau/ gwaith prosiect (2 dyfynbris eitem ar gyfer eitemau/ gwaith sy'n dod at £10,000, 3 dyfynbris eitem ar gyfer unrhyw eitem/ gwaith sy'n fwy na £10,000)

Dylai'r dyfynbrisiau ddilyn yr un templed a, lle bo hynny'n berthnasol, dylid eu rhannu er mwyn dangos costau elfennau gwaith unigol e.e. costau offer / llafur / costau gosod.

*Pryniant Arian Parod*
Ni thelir unrhyw gyllid lle ymgymerwyd â thrafodion arian parod.

*Ôl-weithredu*
Ni thelir unrhyw gyllid ar unrhyw wariant ôl-weithredol.

# ADRAN B – PROSES GRANTIAU

## Gwneud Cais

*Cais Llawn*

1. Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i llenwi'n iawn a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chynnwys ar adeg ei chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys:

   - Cynllun Busnes diweddaraf
   - Cyfrifon blynyddol diweddaraf
   - Datganiad Llif Arian ac Elw a Cholled Arfaethedig
   - Cadarnhad o gyllid cyfatebol
   - Cadarnhad o'r **Caniatâd Cynllunio a / neu'r Rheoliadau Adeiladu (os yw'n berthnasol) gan gynnwys 'Newid Defnydd'.
   - Prawf o berchnogaeth/ prydles **** os yw'n berthnasol
   - Amcangyfrifon / dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer y prosiect

- Holl Ofynion Cyfreithiol Statudol ar gyfer y Busnes (os yw'n berthnasol)
- Cadarnhad cofrestru gyda Chyllid a Thollau EM

*Os nad yw'r busnes wedi bod yn masnachu yn ddigon hir i gyfrifon fod ar gael, bydd angen o leiaf 3 mis o ddatganiadau banc i ddangos tystiolaeth o fasnachu*

** Ar gyfer ceisiadau am gyllid mwy, efallai bydd cais am wybodaeth ariannol mwy na blwyddyn.*

*** mewn achosion lle mae caniatâd cynllunio yn y broses ond heb ei dderbyn eto, gellir ystyried ceisiadau ond byddai unrhyw gynnig cyllid yn amodol ar dderbyn y cymeradwyaethau / caniatâd perthnasol.*

***** Angen prydles gydag o leiaf 5 mlynedd fel sy'n safonol.*

Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth o ffynonellau eraill.
Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i wybodaeth ariannol megis trosiant mewn perthynas â'r swm o gyllid y ceisir amdani.
Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol i gefnogi cais
Os bydd unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, byddwn yn cysylltu â chi.
Gallai methiant i gydymffurfio oedi'r penderfyniad. Nodwch nad yw'r amserlen cymeradwyaeth yn cychwyn nes derbynnir yr holl ddogfennaeth ofynnol gan yr Awdurdod Lleol.

*Fe'ch atgoffir ar hyn o bryd i beidio ag ymgymryd ag unrhyw wariant ar y prosiect a ariennir gan grant nes bod penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud ar y cais a'ch bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o hyn.*

2. *Lle gofynnir i chi wneud hynny, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl i egluro'r prosiect, ei fanteision a'i effaith a sut bydd yn cyflawni'r ymyriadau, allbynnau a chanlyniadau.*

   *Gweler y ddogfen ymyriadau cefnogol [DOLEN]*

3. Darllenwch yr holl wybodaeth a chanllawiau a ddarperir yn ofalus, ac yn benodol nodwch a gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pob agwedd ar y ffurflen gais a'r canllawiau sy'n ymwneud â dyfarnu'r Grant Cefnogi Busnes Lleol. Yn benodol, dylech chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

   - **Ni thelir unrhyw gyllid ar wariant ôl-weithredol**
   - **Ni delir unrhyw arian ble talwyd ag arian parod**

**CYMORTH GWLADWRIAETHOL/ RHEOLI CYMHORTHDAL**

Bydd y grantiau yn cael eu dyfarnu dan Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA)
Mae Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn caniatáu awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymorthdaliadau gwerth isel (hyd at £315,000)

Ni ellir rhoi MFA ychwanegol i fuddiolwr sydd wedi cyrraedd eu trothwy MFA yn barod.

Fel rhan o'r broses cais, bydd arnoch angen:

- Datgan eich dealltwriaeth bod y cyllid a gynigir yn gymorthdal dan MFA
- Datgan trothwy MFA a nodwyd yn adran 36(1) y Ddeddf yn fwy na'r fenter sy'n derbyn y cymorth arfaethedig.

Wrth wneud eich datganiad, dylech ystyried bod holl gymhorthdal (gan gynnwys grantiau) a ddaeth i law drwy'r cynlluniau canlynol yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol.

De Minimis, 'Special Drawing Rights' (SDR), De Minimis y DU, 'Small Amounts of Financial Assistance' (SAFA, yr enw presennol), Small Amounts of Funding Exemption (SAFE) a 'Minimal Financial Assistance' (MFA).

Gallai enghreifftiau gynnwys grantiau cysylltiedig Ardrethi Annomestig, Cronfa Cadernid Economaidd, Grant Cychwyn, Cronfa Gweithwyr Llawrydd, Cronfa Awdurdod Lleol yn ôl Disgresiwn, Grant Cymorth i Fusnesau Conwy.

## Prosesu Eich Cais

Ar ôl cael eich ffurflen gais lawn bydd y Cyngor yn: -

- Gwirio bod yr holl fanylion a ddarperir mewn trefn ac os na, yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth bellach sy'n ofynnol.
- Cynnal ymgynghoriad, a all gynnwys:
    - Geirda gan y banc
    - Chwiliad gydag asiantaeth gwirio credyd mewn perthynas â'ch busnes. *Bydd yr asiantaeth y cadw cofnod o'r ymchwiliad hwnnw, ac efallai'n rhannu'r wybodaeth gydag asiantaethau eraill.*
    - Gwneud ymholiadau mewn perthynas â chyfarwyddwyr cwmni gydag asiantaeth gwirio credyd.
    - Chwiliadau lleol e.e. Treth y Cyngor a / neu gyfraddau annomestig
- Cyfeirio'r cais at y Panel Grantiau ar gyfer gwneud penderfyniad. *Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar deilyngdod, ac yn unol â nodau ac amcanion y cynllun.*

## Rhoi gwybod am y penderfyniad

Cewch wybod ar ffurf e-bost beth fydd y penderfyniad. Os byddwch yn llwyddiannus fe'ch hysbysir o'r swm a gynigir ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad. Wedi'i atodi i’r llythyr bydd y contract *‘Telerau ac Amodau’* y bydd yn rhaid i chi gadw ato. Rhaid *llofnodi a dychwelyd y ddogfen hon o fewn 28 diwrnod* o gael y cynnig cyllid.

## Hawlio

Mae ein holl gyllid ar sail talu (h.y. rhaid i’r hawlydd wario’r arian yn gyntaf ac yna maent yn hawlio’r swm a gytunwyd yn ôl fel y nodwyd yn y llythyr cynnig grant.
Fel arfer byddwn yn gwneud hyn mewn 1 / 2 rhandaliad yn ddibynnol ar y prosiect a’i broffil gwario.

Yn dilyn cadarnhad o ddyfarniad bydd rhaid derbyn holl gynigion ac wedi’u tynnu o fewn 6 mis neu dim hwyrach na mis Rhagfyr 2024, pa un bynnag sydd cynharaf.

Gyda chytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan CBSC, efallai gellir ymestyn dyddiad cau 6 mis, fodd bynnag ni fydd modd cael estyniad i ddyddiad cau mis Rhagfyr 24 yn bosibl.

Fel cronfa amser cyfyngedig, bydd yr holl gynigion grant (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) na chawsant eu tynnu yn unol â’r uchod yn dod i ben yn awtomatig.

Wrth gyflwyno hawliad, bydd angen prawf o wariant. Rhaid i hyn gynnwys:

- Pob cyfrif / anfoneb berthnasol *(rhaid i anfonebau beidio â chynnwys dyddiad sy’n bellach yn ôl na dyddiad y llythyr / contract cynnig wedi'i lofnodi a'i ddychwelyd).*
- Bydd hefyd angen copïau o gyfriflenni banc cyfatebol yn dangos y taliadau yn mynd allan o gyfrifon y cwmni.

*Ni dderbynnir unrhyw drafodion arian parod fel rhan o hawliad.*

Bydd y Cyngor yn penderfynu a fydd y gweithgaredd y dyfarnwyd y cyllid ar ei gyfer (gwaith a wnaed neu bryniannau a wnaed) wedi'i gyflawni'n llawn, yn unol â'r cynnig a wnaed yn y cais, ac unrhyw amodau sydd ynghlwm i’r gymeradwyaeth. Gellir gwneud hyn drwy archwiliad neu unrhyw ffordd arall a bennir gan y Cyngor. Pan fydd yr uchod i gyd wedi'i gwblhau, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r cyllid i'ch Cyfrif Banc Busnes drwy daliad BACS.

## **Monitro ar ôl Dyfarniad**

Bydd monitro allbynnau a gytunwyd yn cael eu gwneud ar ôl cwblhau'r prosiect.

Yn ystod y cyfnod cydymffurfio â chyllid 3 blynedd, gall y Cyngor, neu ei asiantau, ymweld â'ch safle er mwyn cynnal archwiliad monitro o'r busnes ac asedau a gynorthwyir gan Grantiau Cyllid Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol.

Bydd rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus gymryd rhan mewn adolygiad monitro yn ôl y gofyn.

Ar brosiectau sydd wedi nodi creu a/neu ddiogelu swyddi fel canlyniad, mae'n bosibl y bydd y Cyngor angen gweld tystiolaeth o'r ffactorau cyflogaeth.

Ar gyfer pob prosiect arall, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos naill ai cynnydd mewn trosiant, neu dystiolaeth o sut mae'r Grant Cyllid Allweddol Cefnogi Busnes Lleol wedi effeithio ar y busnes.

### **Manylion Cyswllt**

| | |
|---|---|
| CONWY<br>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL<br>COUNTY BOROUGH COUNCIL | Cymorth i Fusnesau Conwy<br>**business@conwy.gov.uk**<br>01492 574574 |